# Cwestiynau Treiddgar a Gwefr Eiriau

## Beth yw cwestiwn treiddgar?

Mae cwestiwn treiddgar yn tanio meddwl dwfn ac ymatebion manwl. Mae cwestiwn penagored yn cefnogi dealltwriaeth ddyfnach i'r sawl sy'n gofyn a'r un sy'n ateb. Trwy ofyn cwestiwn treiddgar, rydych chi'n annog y derbynnydd i archwilio ei deimladau personol a'i syniadau am bwnc penodol. Mae'r ateb yn gofyn am feddwl beirniadol a chreadigol.

## Manteision defnyddio cwestiynau treiddfar ar gyfer gweithdai Trafod Trafnidiaeth?

Bydd defnyddio cwestiynau treiddgar ar gyfer y testun a ddewiswyd gennych yn sicrhau bod y sgwrs yn agored ac yn galluogi'r cyfranogwyr i lywio'r drafodaeth i'r cyfeiriad o'u dewis. Mae hefyd yn helpu'r hwylusydd i:

- Egluro atebion / barn / meddyliau cyfranogwyr
- Ail-lywio'r drafodaeth yn ôl i'r testun a ddewiswyd
- Gwerthuso effeithiolrwydd a budd rhywbeth
- Hwyluso trafodaethau ystyrlon sydd hefyd yn helpu i feithrin perthynas rhwng cyfranogwyr



## Gwefr Eiriau

Defnyddiwch gwefr eiriau trwy gydol eich sesiwn i helpu i archwilio a chynorthwyo trafodaeth.

Gellir eu defnyddio i ddal sylw cyfranogwyr neu ddisgrifio pwnc yn fwy manwl.

Cofiwch y gall gwefr eiriau olygu gwahanol bethau i wahanol bobl.

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Meddyliwch am y teithiau a wnewch yn rheolaidd – beth yw rhai rhwystrau cyffredin i bobl ag anghenion ychwanegol? Allwch chi grwpio'r rhain yn themâu, a nodi lleoliadau penodol y credwch y dylid eu gwella?

Trafodwch rai o'r rhwystrau a allai eich atal chi neu rywun rydych yn ei adnabod rhag defnyddio neu gael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus? Sut y gellid datrys y rhain?

Trafod nodweddion allweddol y dylid eu hystyried i wneud teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yn hygyrch i bawb?

Beth mae symudedd a chynhwysiant yn ei olygu i chi?

A yw'n bwysig i chi eich bod yn cael eich cynrychioli? Os felly, pam?

## Cynaladwyedd

Meddyliwch am y teithiau rydych chi'n eu gwneud yn rheolaidd, sut allech chi fod yn fwy cynaliadwy?

Beth yw'r her fwyaf i wneud teithiau trên a bws yn fwy cynaliadwy?

Allwch chi restru ffyrdd y gall teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus fod o fudd i'r amgylchedd?

Beth mae cynaliadwyedd yn ei olygu i chi?

## Teithio Llesol

Beth ydych chi'n meddwl sy'n eich atal rhag cerdded neu feicio mwy o'ch teithiau'n lleol?

Allwch chi nodi rhestr o leoedd yn eich cymuned lle rydych chi'n meddwl y byddai pobl yn anghyfforddus yn beicio?

Rhestrwch yr holl deithiau rydych chi'n eu gwneud mewn wythnos – allwch chi nodi rhai y gallech chi eu cerdded neu eu beicio yn lle hynny?

Beth sydd wedi gwneud ichi ddewis y teithiau hynny yn benodol?

Sut olwg sydd ar deithio llesol i chi?

Sut byddai cyfleoedd teithio llesol yn gwella eich cymuned?

# Cwestiynau Treiddgar a Gwefr Eiriau

## Gyrfaoedd mewn Trafnidiaeth

Pa fath o rolau ydych chi'n meddwl sydd ar gael yn y diwydiant trafnidiaeth? Pa fath o sgiliau fyddai eu hangen arnoch chi?

Beth yw rhai o'r rhwystrau sy'n eich atal rhag gwneud cais neu eisiau rôl mewn trafnidiaeth?

Ydych chi'n meddwl bod gyrfa mewn trafnidiaeth yn addas i chi? Pam / Pam lai?
Beth fyddai'n gwneud rolau mewn trafnidiaeth yn fwy apelgar i chi?

Sut gallai'r sector trafnidiaeth eich cefnogi i baratoi ar gyfer gyrfaoedd yn y dyfodol?

Ceisiwch ddychmygu person yn gweithio o fewn y diwydiant rheilffyrdd. Beth sy'n dod i'r meddwl ar unwaith?

## Diogelwch

Meddyliwch am eich ardal leol, a oes unrhyw le sy'n eich gwneud yn nerfus wrth gerdded, beicio, gyrru, neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus? Ysgrifennwch pam mae hyn a thrafodwch y rhain fel grŵp i ddod o hyd i atebion i wella diogelwch yn eich cymuned.

Meddyliwch am y teithiau yr ydych yn eu gwneud yn rheolaidd, a gawsoch brofiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu a oedd gennych bryderon ynghylch eich diogelwch? Oes yna bethau y gellid bod wedi eu gwneud yn wahanol i ddelio ag YGG neu eich diogelwch a allai wella eich profiad?

Meddyliwch am eich taith trên ddiwethaf, a oeddech chi'n teimlo'n anniogel yn yr orsaf drenau neu yn ystod eich taith trên? Sut gellid gwella eich profiad yn yr orsaf ac ar y daith trên?

Cyfrifoldeb pwy yw cynnal diogelwch ar drafnidiaeth gyhoeddus, yn eich barn chi?

## Profiad Cwsmer

Meddyliwch am y tro diwethaf i chi fynd ar daith ar drafnidiaeth gyhoeddus – trafodwch yr uchafbwyntiau a'r heriau. Sut y gellid gwella hyn?

Beth yw rhai o'r rhesymau pam yr ydych yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, a sut y gellid gwella'r daith?

Dywedwch wrthym am adeg pan brofoch her ar daith a sut y gwnaethoch ei goresgyn.

Sut olwg sydd ar wasanaeth cwsmeriaid da i chi?

## Marchnata a Chyfathrebu

Pa negeseuon ydych chi'n meddwl fyddai'n apelio at bobl yn eich cymuned?

Edrychwch ar rai o bosteri Marchnata Trafnidiaeth Cymru – sut mae'r rhain yn gwneud i chi deimlo? Fyddech chi'n newid unrhyw beth amdanyn nhw?

Sut gallai cyfathrebu a marchnata fod yn fwy deniadol?

Allwch chi feddwl am ffyrdd creadigol o dderbyn gwybodaeth am drafnidiaeth?

Ydych chi'n teimlo eich bod yn cael eich cynrychioli yng ngwaith marchnata Trafnidiaeth Cymru?

Sut ydych chi'n clywed am ddigwyddiadau neu gyfleoedd newydd yn eich ardal?



# Cwestiynau Treiddgar a Gwefr Eiriau

CYNALADWYEDD diogelwch

teithio llesol MARCHNATA

CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

GYRFAOEDD profiad cwsmer

- Cynrychiolaeth
- Dulliau ymgysylltu
- Cyfryngau cymdeithasol
- Cynulleidfa
- Tôn y llais
- Iaith
- Delweddaeth

- Nodweddion Gwarchodedig
- Anabledd
- Rhyw
- Tuedd Anymwybodol
- Rhwystrau
- Stereoteipiau
- Hanes
- Camsyniadau
- Ethnigrwydd
- Diwylliant

- Ôl Troed Carbon
- Bioamrywiaeth
- Sgwrs
- Mannau Gwyrdd
- Peillwyr
- Llystyfiant
- Cynefinoedd
- Allyriadau
- Ecosystemau
- $CO_2$

- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Anniogel
- Tresmasu
- Comfort
- Tipio anghyfreithlon
- Heddlu
- Cysur
- Gwasanaethau Cefnogi
- Cyfleusterau

- Peiriannau talu
- Amserlennu
- Cwynion
- Arwyddion a chanfod y ffordd
- Staff
- Gwefan
- Glendid
- Gwasanaethau
- Arlwyo

- Peirianneg
- Merched mewn STEM
- Cydraddoldeb
- Amrywiaeth
- Logisteg
- Cyfleoedd
- Prentisiaethau a mynediad i waith

- Cerdded
- Beicio
- Llwybrau Teithio
- Hamdden a thwristiaeth
- Dulliau trafnidiaeth
- Ariannu
- Isadeiledd
- Llygredd aer
- Cysylltiadau